# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

**Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 17 Mehefin 2024, Yr Efail, 18:45-20:05**

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

**Presennol:** Margaret Clarke (Cadeirydd), Dawn Doran-Jones (Is- Gadeirydd), Cyng. Dafydd Roberts, Joanna Robertson, Rob Sargent. Cyng. Alwen Watkin yn ymuno am saith o'r gloch a Guto Williams am chwarter wedi.
**Ymddiheuriadau**: Mark Owen.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Joanna yn cadarnhau bod y cofnodion a gyflwynwyd yn gofnod cywir, Dafydd yn eilio.

## 3. Materion yn codi

**Asesiad risg: y gofeb** – nodwyd tro diwethaf bod y rheiliau ffens wedi cancro a rwan mae darn wedi disgyn i ffwrdd; mae'r Cyngorydd Sir (DR) wedi anfon gwybodaeth am yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i'r Clerc i gynnal ymholiadau i weld os oes modd cael cymorth elusenol i atgyweirio a diogelu'r gofeb.
**Moel y Don:** yn gysylltiedig â'r asesiad risg, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y materion a godwyd yng nghyfarfod mis Ebrill.
**Archwiliad Mewnol:** mae cofnodion y Cyngor wedi eu cyhoeddi ar Llanddaniel.org.
**Cynghrair Bodowyr:** Nodwyd bod y cyfarfod oedd i fod 11 Mehefin wedi ei ohirio oherwydd yr etholiadau; pawb yn cytuno ei bod yn bwysig i'r aelodau hyrwyddo bod aelodau'r gymuned yn mynychu pan ddaw dyddiad newydd.
**Llygod mawr:** cadarnhawyd bod yr eglwys yn cymryd camau i ddelio hefo'r llygod mawr.

## 4. Datgan diddordeb

Dim datganiad.

## 5. Cynllunio

Ymgynghoriad Cynllunio **FPL/2024/123.**
Yr aelodau eisioes wedi trafod y cais a'r clerc wedi anfon ymateb ar ran y Cyngor ar 4 Mehefin 2024.

## 6. Materion ariannol

**Adroddiad misol**:
Incwm a gwariant ers y cyfarfod diwethaf:

| | | |
|---|---|---|
| Incwm: | | |
| Ad-daliad TAW 2023/2024 | | £689.90 |
| | | |
| Gwariant: | | |
| Yswiriant blynyddol | £1,368.66 | |
| Misol: | | |
| Cyfieithu ar y pryd – Mai | £101.25 | |
| Llogi offer cyfieithu – Mai | £ 30.00 | |
| Costau banc | £ 5.00 | |
| Cyflog y Clerc | £415.68 | |
| CThEM – taliadau statudol | £104.00 | |
| | | £2,024.59 |

**Archwiliad Allanol Cyfrifon 2023-2024**

Mae'r Cyngor eisioes, ym mis Ebrill, wedi adolygu cyfrifon incwm a gwariant y flwyddyn 2023-2024, y gwariant yn erbyn y gyllideb flynyddol, a gwirio'r cysoniad banc; mae canlyniadau'r archwiliad mewnol wedi'u trafod yn y cyfarfod diwethaf.
Mae'r Clerc eisioes wedi rhannu ar ebost:

- y ffurflen flynyddol: Datganiad Cyfrifyddu 2023-24
- y ffurflen Gwybodaeth Archwilio Sylfaenol ac esboniad o unrhyw amrywiant sylweddol yn y cyfrifon, ac
- yr adroddiad Archwilio Mewnol 2024.

Cadarnheir bod y Cyngor wedi cymeradwyo ac ardystio cyfrifon y llynedd ac wedi cadarnhau y ffurflen flynyddol 2024 a'i chymeradwyo yn unol â'r gofynion.
Mae'r datganiad cyfrifyddu a'r dogfennau ategol wedi cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru i gynnal yr archwiliad allanol.
Mae hysbysiad hawliau archwilio'r cyhoedd wedi ei arddangos ar yr Hysbysfwrdd yn y pentref ac ar wefan y Cyngor ac mae trefniadau yn eu lle i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon rhwng 1 Gorffennaf 2024 a 26 Gorffennaf 2024.

**Lwfansau Aelodau 2023-2024**

Adroddod y Clerc bod raid i'r Cyngor gyhoeddi erbyn 30 Medi bob blwyddyn fanylion taliadau unigol a wnaed i'w aelodau yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Er nad oes yr un o'r aelodau yn arferol yn derbyn unrhyw daliad, mae'n ofynnol trafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: Cynghorau Cymuned a Thref: Lwfansau Cynghorwyr a gwneud penderfyniad ffurfiol ynglŷn â lwfansau.
Mae'r aelodau wedi derbyn copi o'r adroddiad ac wedi penderfynu, yn unol â'u harferiad, na fyddant yn derbyn unrhyw lwfans na thaliad gorfodol. Gan bod angen i bob aelod roi gwybod i'r Clerc yn ysgrifenedig beth yw eu dymuniad, penderfynwyd y byddai'r Clerc yn dod â ffurflenni 'optio allan' i'r cyfarfod nesaf i'r aelodau eu harwyddo.

## 7. Llythyrau i'w trafod

Dim llythyrau yn y cyfnod.

## 8. Diweddariad llwybrau

Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir mai £905.70 sydd ar gael i'w adennill flwyddyn yma am waith cynnal llwybrau cyhoeddus.
Mae'r Cyngor wedi derbyn dyfynbris ar gyfer y gwaith ychwanegol o dorri'r gordyfiant ar y llwybr ger Parc Deiniol Sant / Ty Mawr, a cytunwyd i dderbyn y pris; bydd y Cyngor yn gallu adennill y gost.
Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb parthed llwybr Tyddyn Eurach. Awgrymwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i un o'r aeoldau gyfarfod hefo'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus a rhywun o'r stad.
Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi cadarnhau y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y llwybr ger Noddfa yn yr haf. Mae y gwaith ail-wneud y llwybr pren ger Trefnant Wen eisioes wedi cychwyn; gwirfoddolwyr sy'n gwneud y gwaith ac mae'n debyg o gymryd nifer o ymweliadau dros yr haf.

## 9. Cae chwarae - diweddariad

Mae Mr Aled Hughes wedi trwsio y ffrâm ddringo ac mae'r Cyngor yn dymuno cyfleu eu diolch iddo.
Adroddod y Cadeirydd bod nifer o bobl yn canmol y bwrdd a meinciau a chafwyd trafodaeth ar gael un arall, unai yn y cae chwarae neu yn y man gwyrdd yng nghanol y pentref. Arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach am y defnydd o'r man gwyrdd; roedd yr aelodau yn cydnabod y gwrthgyferbyniad rhwng y ddelfryd o'i wneud yn lle y gall pobl ei ddefnyddio er budd y gymuned a'r angen am lecynnau parcio i'r bobl sy'n byw gerllaw.

Penderfynwyd y byddai cael bwrdd a meinciau arall yn y cae chwarae yn syniad da, maes o law, a bydd un o'r aelodau yn ymchwilio i mewn i gael gazebo pren ar ei gyfer i ddarparu cysgod. Cytunwyd y byddai cyfle i wneud ymholiadau i weld beth mae'r gymuned eisiau yng nghyfarfod nesaf Cynghrair Bodowyr a cawn ystyried y man gwyrdd fel rhan o'r broses diweddaru'r gofrestr asedau cymunedol a thrafod y posibilrwydd o wneud cais am grant ar gyfer darparu lle i bobl eistedd yn Coed y Gof hefyd. Hyn yn berthnasol i'r eitem nesaf.

**10. Coed y Gof - diweddariad**

Ar hyn o bryd mae angen clirio y llwybr ac mae gordyfiant o'r gerddi sy'n terfynu ar y llwybr. Mae yna ddŵr yn sefyll mewn un man, wrth ochr y llwybr, tu ôl i Tre Gof, bosib o ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo gan y Cyngor Sir. Cytunwyd i un o'r aelodau wirio pa mor ddyfn yw'r pwll dŵr, gallai fod yn beryg i blant bach. Awgrymwyd i'r Cyngor gysylltu gyda'r Adran Tai i glirio y tir tu ôl i'r stad, fel y gall y Cyngor wedyn roi mainc ger y llwybr i bobl eistedd tra mae plant yn chwarae, neu tra'n cerdded gyda chŵn.

**11. Diogelwch ffyrdd - diweddariad**

Braf gallu dweud bod SPEN wedi cwblhau y gwaith ar y ffordd, a'r gwaith ail-wynebu gan yr Adran Briffyrdd hefyd wedi'i gwblhau.

Mae'n drueni bod nifer o ddamweiniau wedi bod ar y ffyrdd lleol yn ddiweddar ac yn anffodus mae gor yrru'n parhau. Trafododd y Cyngor amryw o faterion yn ymwneud â diogelwch ffyrdd a'r gwelliannau y gellid eu gwneud petai'r Adran Priffyrdd yn gallu eu gweithredu.

Mae angen ystyried y fynedfa i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Plas Newydd a hefyd Bryn Celli Ddu. Mae angen palmant lletach a chlirio'r gordyfiant ger y fynedfa.

Pryder bod y wal a godwyd ar y gongl o groesffordd Star yn rhy isel - awgrymwyd bod y Cyngor yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i godi'r wal yn uwch neu osod rhwystrau metel, fel ar ochr arall y ffordd.

Nodwyd bod Network Rail wedi gwneud gwaith ger y rheilffordd yn ddiweddar ond mae ffens wedi dymchwel ar yr ochr dde wrth fynd am Gaerwen. Gan fod cryn gwymp i lawr i'r tir a modd mynd at y trac penderfynwyd i gysylltu hefo Network Rail i'w hysbysu am y perygl. Soniodd y Cynghorydd Sir (DR) ei bod yn bosibl adrodd am beryglon o'r fath ar-lein i Network Rail.

Mater arall ddygwyd i sylw'r Cyngor yw'r angen i dorri'r gwrychoedd/coed yn ôl sy'n hongian dros y palmant o'r pentref tuag at y Stesion. Mae'n achosi i gerddwyr, yn cynnwys plant ysgol, gamu i'r ffordd. Yn unol â Deddf Priffyrdd 1980, mewn achosion o'r fath, gall y Cyngor Sir anfon llythyrau at breswylwyr i ofyn iddynt dorri'r gordyfiant yn ôl. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cysylltu hefo'r Adran Briffyrdd.

**12. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**

Adroddwyd bod Ysgol Parc y Bont wedi cael gwybod dyddiad yr Arolwg; 1 – 4 Gorffennaf. Nodwyd bod Estyn yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd o fis Medi 2024.

**13. Adroddiad gan y Cynghorwyr Sir**

Adroddwyd bod rhai pethau wedi'u gohirio oherwydd yr etholiad ond yn gyffredinol, mae busnes yn mynd yn ei flaen fel arfer. Cyfarfod blynyddol ac ethol cadeiryddion ac aelodau i bwyllgorau ac ati. Dim wedi digwydd sy'n effeithio yn arbennig ar Llanddaniel.

Arwyddwyd: M. B. Clarke          Dyddiad: 15-7-24

**LLANDDANIEL FAB COMMUNITY COUNCIL**

**Council Meeting: Monday, 17 June 2024, Yr Efail, 18:45-20:05**

## 1. Welcome and apologies

**Present:** Margaret Clarke (Chair), Dawn Doran-Jones (Vice-Chair), Cllr. Dafydd Roberts, Joanna Robertson, Rob Sargent. Cllr. Alwen Watkin joined at 7pm, and Guto Williams at quarter past.
**Apologies**: Mark Owen.

## 2. Minutes

It was resolved to accept the minutes presented as a true and accurate record.
Proposed and seconded: JR/DR.

## 3. Matters arising

**Risk assessment: war memorial** – it was noted last time that some of the fence rails have rotted and now a section of the railings has fallen off; the County Councillor (DR) has sent information about the War Memorials Trust to the Clerk to carry out inquiries to see if charitable assistance can be obtained to repair and protect the memorial.
**Moel y Don:** linked to the risk assessment, it was confirmed that the Council had informed the County Council of the issues raised at the April meeting.
**Internal Audit:** the minutes of the Council have been published on Llanddaniel.org.
**Bodowyr Alliance:** It was noted that the meeting which was to be on 11 June has been postponed due to the election; it was agreed that it is important for the members to promote that community members attend when a new date is arranged.
**Rats issue:** it was confirmed that the church is taking steps to deal with the rats.

## 4. Declaration of interest

None.

## 5. Planning

Planning Consultation **FPL/2024/123**.
The members have already discussed the application and the Clerk has sent a response on behalf of the Council on 4 June 2024.

## 6. Financial matters

**Monthly report**:
Income and expenditure since the last meeting:

| | | |
|---|---|---|
| Income: | | |
| VAT refund 2023/2024 | | £689.90 |
| | | |
| Expenditure: | | |
| Annual insurance | £1,368.66 | |
| Monthly: | | |
| Simultaneous translation – May | £101.25 | |
| Hire of translation equipment – May | £ 30.00 | |
| Bank charges | £ 5.00 | |
| Clerk's wages | £415.68 | |
| HMRC – statutory payments | £104.00 | |
| | | £2,024.59 |

**External Audit - Accounts 2023-2024**

The Council, in April, has reviewed the income and expenditure account for the year 2023-2024, the expenditure against the annual budget, and verified the bank reconciliation; the results of the internal audit were discussed in the last meeting.
The Clerk has circulated via email:

- the Annual Return: Accounting statements 2023-24
- Basic Audit Information Requirements form including explanations of significant variances on the Accounting Statements, and
- the Internal Audit Report 2024.

It is confirmed that the Council has approved and certified last year's accounts and has confirmed and approved the 2024 Annual Return in accordance with requirements.
The accounting statements and the supporting documents have been submitted to Audit Wales to conduct the external audit.
The Notice of appointment of the date for the exercise of electors' rights to inspect the accounts has been published on the village noticeboard and on the Council's website and arrangements are in place for the public to inspect the accounts from 01 July to 26 July 2024.

**Members Allowances 2023-2024**

The Clerk reported that the Council must publish by 30 September each year details of individual payments made to its members in the previous financial year. Although none of the members normally receive any payment, it is required to discuss the Annual Report of the Independent Remuneration Panel for Wales: Community and Town Councils: Councillors' Allowances and make a formal decision regarding allowances. The members have received a copy of the report and have decided, as usual, that they will not receive any allowance or compulsory payment. As all members need to inform the Clerk in writing of their wishes, it was decided that the Clerk would bring 'opt out' forms to the next meeting for the members to sign.

**7. Letters to discuss**

None in the period.

**8. Update - footpaths**

Confirmation was received from the County Council that £905.70 is available to be recovered this year for maintenance of public footpaths.
The Council has received a quotation for the additional work of cutting the overgrowth on the Parc Deiniol Sant / Ty Mawr path, it was agreed to accept the price quoted; the Council will be able to recover the cost.
The County Council has responded regarding the Tyddyn Eurach footpath. It was suggested that the best way forward would be for one of the members to meet with the Public Rights of Way Officer and someone from the estate.
The County Council has also confirmed that further work will be carried out on the path near Noddfa in the summer. The work to redo the wooden path near Trefnant Wen has already started; the work is being done by volunteers and is likely to take a number of visits over the summer to complete.

**9. Playground - update**

Mr Aled Hughes has repaired the climbing frame and the Council conveys their thanks to him.
The Chairman reported that so many people have praised the picnic table and benches and there was a discussion about having another one, either in the playing field or on the village green. This led to a wider discussion about the use of the village green; the members recognised the conflict between the ideal of making it a place that people can use for the benefit of the community and the need for parking spaces for the people who

live nearby. It was decided that having another table and benches in the playground would be a good idea, in due course. One of the members will look into getting a wooden gazebo as well, to provide shelter. It was agreed that there will be an opportunity to make enquiries to see what the community wants at the next Bodowyr Alliance meeting and we can consider the village green as part of the process of updating the community asset register and discuss the possibility of applying for a grant to provide a place for people to sit in Coed y Gof as well. This is relevant to the next item.

**10. Coed y Gof - update**

At the moment the path needs to be cleared, there is overgrowth from the gardens bordering the path. There is standing water in one place, by the side of the path, behind Tre Gof, possibly as a result of work in progress by the County Council. It was agreed for one of the members to check how deep the pool of water is as it could pose a danger for small children. A suggestion was made that the Council contacts the Housing Department to request that the land behind the estate is cleared; the Council can then put a table and benches near Coed y Gof for people to sit while children play, or while walking dogs.

**11. Road safety - update**

It is good to be able to report that the SPEN road works have now been completed and that the Highways Department has completed the resurfacing work.

It is regrettable that there have been a number of road traffic accidents on local roads recently and unfortunately, speeding continues to be a problem. The Council discussed various issues concerning road safety, including how to tackle speeding by some motorists and improvements that could be made if the Highways Department could implement them.

There is a need to consider the entrance to the Plas Newydd National Trust property and also Bryn Celli Ddu. A wider pavement and clearing of the overgrowth near the entrance is needed. It is a shame that the wall erected on the corner from the Star junction is too low. It was suggested that the Council contact Natural Resources Wales to raise the wall higher or install metal barriers, as on the other side of the road.

It was noted that Network Rail has carried out work along the roadside in the area but the fence has collapsed on the right-hand side when heading in the direction of Gaerwen. As there is quite a drop down to the ground and the track could be accessed it was decided to contact Network Rail to inform them of the danger. The County Councillor (DR) mentioned that it is possible to report such hazards online to Network Rail.

Another issue brought to the Council's attention is the need to cut back the hedges/trees that hang over the pavement from the village towards the station, causing pedestrians, including school children, to step into the road. In accordance with the Highways Act 1980, in such cases, the County Council can send letters to residents to ask them to cut the overgrowth back. It was agreed that the Council would contact the Highways Department.

**12. Reports of any meetings**

Ysgol Parc y Bont has been informed of the date of the school inspection; 1 – 4 July.

It was noted that Estyn is introducing new inspection arrangements from September 2024.

**13. Report from County Councillors**

It was reported that some things have been postponed due to the election but in general, business is going ahead as usual. Annual meeting and election of chairpersons and members to committees etc. Nothing to report that particularly affects Llanddaniel.

Signed: M. C. Clarke Date: 15 - 7 - 24